**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 22ain Gorffennaf 2020 gan gychwyn am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, R. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**143. DECHRAU'R CYFARFOD – YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ms J. L. McAlpine a nodwyd hynny ar gyfer y Cynghorwyr Ms. J. Hughes, A.J. Johnson.

Cafwyd ennyd o dawelwch i gofio am y cyn-gynghorydd Mr Bill Tasker, mam y Cynghorydd Mrs E. M. Chard, Mrs Glenys Owen Begley, a thad yng nghyfraith y Swyddog Cyllid, Mr Lam a oedd oll yn drist wedi marw ers cyfarfod diwethaf y Cyngor ym mis Chwefror.

Dywedodd Clerc y Dref bod y cynnig i dybio anawsterau technegol am y rheswm pam nad oedd rhai yn bresennol yng nghyfarfod heno ac i'w hymddiheuriadau gael eu derbyn a'u hymestyn am gyfnod o dri mis. Roedd hyn yn angenrheidiol oherwydd byddai'r aelodau hynny nad oedd yn bresennol heno yn cael eu hanghymhwyso dan y rheol 6 mis o absenoldeb.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cynnig.*

**144. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cyemradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 19eg Chwefror 2020 - Rhifau Cofnod 126-142

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King a ***PHENDEFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Mewn perthynas â chofnod rhif 137 (Eitem er Gwybodaeth: Newidiadau i amserlenni trenau Gogledd Cymru), dywedodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield bod Cynhadledd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru Gyfan yn digwydd ar ddydd Mercher 16eg Medi, rhwng 8.30am a 1.30pm, ac awgrymodd bod y Cyngor Tref yn anfon cynrychiolydd.

Gofynnodd y Cynghorydd Butterfield os oedd y Cynghorydd B. Jones wedi ysgrifennu at Ken Skates AS fel y nodwyd yn y cofnod.

Adroddodd y Cynghorydd B. Jones ei fod wedi ysgrifennu at yr AS, ac er nad oedd wedi derbyn ateb swyddogol, roedd wedi mynychu cyfarfodydd gydag ef yn bresennol a chadarnhaodd bod strategaeth reilffordd a bysus newydd yn cael ei datblygu.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cynghorydd B. Mellor yn mynychu'r gynhadledd ar ran y Cyngor Tref am gost o £80 gyda Chlerc y Dref yn cael ei awdurdodi i achosi gwariant hyd at £100 os oedd angen*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *bod Clerc y Dref yn hysbysu holl Glercod Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru o'r gynhadledd a'u hannog i fynychu.*

Mewn perthynas â cofnod rhif 133 (Gohebiaeth: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych), gofynnodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James am ddiweddariad ar bwy a fyddai'n cynrychioli Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Sir Ddinbych.

Adroddodd Clerc y Dref ei fod wedi mynegi diddordeb mewn mynychu, ond nid oedd eto wedi debyn cadarnhad o ran pwy a oedd wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud cais.

Mewn perthynas â chofnod rhif 141 (Pwyllgor CSG – Gwariant Gwasanaethau a Gomisiynwyd), adroddodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield ei bod wedi bod yn falch iawn gyda'r gwasanaeth roedd ei thrigolion wedi ei dderbyn gan y Siop Cyngor ar Fudd-daliadau yn ystod y cyfnod clo, ac awgrymodd bod Clerc y Dref yn ysgrifennu atynt yn cyfleu gwerthfawrogiad y Cyngor Tref am iddynt fynd gam ymhellach yn y cyfnod unigryw a heriol iawn hwn.

**[Datganodd y Cynghorydd J. Ball fuddiant rhagfarnus yn y Siop Cyngor ar Fudd-daliadau gan ei fod yn gynghorydd gwirfoddol ac ni chymerodd unrhyw ran bellach yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater]**

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at y Siop Cyngor ar Fudd-daliadau .*

Pwyllgor Cynllunio - 19eg Chwefror 2020 - Rhifau Cofnod 44-47

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Mewn perthynas â chofnod rhif 45.1 (Kynsal House, Vale Road), gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield am ddiweddariad ar y cais.

Adroddodd Clerc y Dref bod y cais wedi ei dynnu'n ôl.

Mynegodd y Cynghorydd A. J. Rutherford ei ddiolch i aelodau wardiau'r dref a'r sir am eu cefnogeth yn y cais.

Pwyllgor Cynllunio - 4ydd Mawrth 2020 - Rhifau Cofnod 48-50

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd K. R. Jones a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Penderfyniadau cynllunio a gymerwyd yn ystod y cyfnod clo – Mawrth i Fehefin 2020 – Atodlenni 1-12

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r penderfyniadau.*

Cadarnhau neu fel arall:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Phwrpasau Cyffredinol | - | 4ydd Mawrth 2020 | - Rhifau Cofnod 74-83 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

Mewn perthynas â chofnod rhif 76 (Awdurdodi Taliadau/Ychwanegiadau i'r Rhestr o Gyflenwyr Cymeradwy (Atodlen B)), holodd aelod beth oedd taleb rhif 955 yn ceirio ato?

Dywedodd Clerc y Dref mai BJS Solutions oedd y cwmni yr oedd y Cyngor Tref yun ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau TG a bod adnewyddu'r meddalwedd gwrth-firws yn berthnasol i'r pedwar cyfrifiadur desg a'r gliniadur.

Mewn perthynas â chofnod rhif 79 (Eitem er gwybodaeth i Aelodau: Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Arbed 3), gofynnodd aelod am ddiweddariad ar y cynllun.

Dywedodd Clerc y Dref nad oedd ganddo unrhyw wybodaeth bellach i'w rhannu.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'n cysylltu gydag Arbed am Byth i gael diweddariad ac adrodd yn ôl.*

## 145. PENDERFYNIADAU A GYMERWYD YN YSTOD Y CYFNOD CLO

Cynigiodd y Maer bod y penderfyniadau yn cael eu cymryd en-bloc.

***PENDERFYNWYD*** *bod y penderfyniadau yn yr adroddiad ac cael eu cydnabod a'u cyemradwyo.*

## 146. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) MAWRTH - MEHEFIN 2020

Cyfeiriodd y Maer at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed ac incwm a dderbyniwyd.

*1af – 31ain Mawrth 2020*

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Gwasanaethau a'r Nwyddau |
|---|---|---|---|
| 956 | HSBC | 8.30 | Taliadau Banc |
| 957 | Quadient (Neopost gynt) | 200.00 | Peiriant Ffrancio - ychwanegu |
| 658 | BT | 132.96 | Gwasanaethau Rhyngrwyd |
| 961 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau ar gyfer Chwefror 2020 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 962 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,142.52 | Cyflogau Staff Cyngor Tref y Rhyl Mawrth 2020 |
| 963 | CThEM | 2,743.11 | Didyniadau PAYE Chwefror 2020 |
| 964 | Cyngor Sir y Fflint | 4,290.48 | Cyfraniadau Pensiwn c Ariannu Diffyg Chwefror 2020 |
| 723 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser 19/20 Yaliad 12 o 12 |
| 965 | Sioned Graham Cameron | 1,311.18 | Gwasanaeth Cyfieithu Medi 2019 i Chwefror 2020 |
| 966 | BT | 166.22 | Rhentu Llinell |
| **Cyfanswm Taliadau Atodiad A** | | **£18,351.44** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Llogau | Santander ar 31 Day Notice Account | 38.73 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 33.97 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 23.30 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 5.70 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 5.06 |
| Llogau | HSBC ar Money Maker Account (Chwarterol) | 38.07 |
| Codi Arian gan y Maer | Swper Pysgod a Sglodion | 719.79 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **£864.62** |

*1af – 30ain Ebrill 2020*

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwyr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 976 | Shire Leasing | 337.33 | System Ffôn Avaya Ch1 ar gyfer 2020/21 |
| 977 | BT | 372.87 | Rhentu Llinell a Galwadau |
| 978 | Neopost | 108.04 | Cerdyn Cyfraddau ar gyfer y Peiriant Ffrancio |
| 979 | BT | 108.28 | Rhentu Llinell |
| 983 | HSBC | 20.00 | Taliadau Banc 17eg Chwefror i 16eg Mawrth 2020 |
| 986 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffi Rheoli Mawrth 2020 |
| 985 | Gwasanaeth Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apeliadau 20/21 Taliad 1 o 12 |
| 984 | Cyngor Sir Ddinbych | 732.25 | TANC 20/21 ar gyfer Swyddfa Ffordd Wellington – Taliad 1 o 10 |
| 987 | CThEM | 2,743.11 | Didyniadau PAYE Mawrth 2020 |
| 988 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,290.48 | Didyniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Mawrth 2020 |
| 989 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,176.28 | Cyflogau Staff Ebrill 2020 |
| 990 | CAB | 2,000.00 | Swyddog Tlodi Tanwyd 20/21 Taliad 1 o 4 |
| **Cyfanswm Taliadau Atodlen A** | | **£20,245.31** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 2.30 |
| Llogau | Santander ar 31 Day Notice Account | 41.40 |
| TAW | CthEM Hawliaad Ch 4 2019/20 | 3,854.48 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 0.92 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 0.92 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 0.46 |

| | | |
|---|---|---|
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 0.46 |
| Praesept | Cyngor Sir Ddinbych 1 o 3 ar gyfer 2020/21 | 184,537.00 |
| **Cyfanswm Incwm** | | £188,437.94 |

*1af – 31ain Mai 2020*

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 995 | HSBC | 6.50 | Taliadau Banc 17eg Mawrth i 16eg Ebrill 2020 |
| 998 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffi Rheoli Ebrill 2020 |
| 985 | Gwasanaeth Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apeliadau 20/21 Taliad 2 o 12 |
| 984 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | TANC 20/21 ar gyfer Swyddfa Ffordd Wellington – Taliad 2 o 10 |
| 1002 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,622.00 | Benthyciad Parc Dwr SC2 20/21 Taliad 1 o 3 |
| 999 | CThEM | 2,702.19 | Didyniadau PAYE Ebrill 2020 |
| 1000 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,224.77 | Didyniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Ebrill 2020 |
| 1001 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,175.88 | Cyflogau Staff Mai 2020 |
| **Cyfanswm Taliadau Atodlen A** | | **£49,824.01** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Llogau | Santander ar 31 Day Notice Account | 40.07 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 0.46 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 0.46 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 0.46 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 0.46 |
| **Cyfanswm Incwm** | | £41.91 |

*1af – 30ain Mehefin 2020*

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1007 | HSBC | 6.50 | Taliadau Banc 17 Ebrill i 16 Mai 2020 |
| 1008 | BT | 132.96 | Gwasanaethau Rhyngrwyd |
| 1009 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffi Rheoli Mai 2020 |
| 985 | Gwasanaeth Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apeliadau 20/21 Taliad 3 o 12 |
| 984 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | TANC 20/21 ar gyfer Swyddfa Ffordd Wellington – Taliad 3 o 10 |
| 1010 | CThEM | 2,702.59 | Didyniadau PAYE Mai 2020 |
| 1011 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,224.77 | Didyniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Mai 2020 |
| 1012 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,175.68 | Cyflogau Staff Mehefin 2020 |
| **Cyfanswm Taliadau Atodlwn A** | | **£17,527.90** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Llogau | Santander ar 31 Day Notice Account | 41.40 |
| Llogau | HSBC ar Money Maker Account | 42.21 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 0.46 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 0.46 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 0.46 |
| Llogau | HSBC ar 7 Day Deposit | 0.46 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **£85.45** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r holl adroddiadau.*

**147. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwy (25ain Chwefror i 30ain Mehefin 2020)*

*Taliadau Chwefror - 2020*

| Cyflenwr | Manylion | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Swyddfa Comisinydd Gwybodaeth | Tanysgrifiad Blynyddol | 960 | 35.00 |
| Theatr Colwyn | 2 docyn i noson ffiliau elusen Maer Bae Colwyn | 967 | 10.00 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Gwaith trwsio – Gerddi Coffa | 968 | 59.45 |
| Gunsmoke Communications | Treuliau amrywiol – digwyddiad Dydd Gwyl Dewi | 969 | 34.00 |
| Cyfrif Elusen Maer Llanelwy | 2 docyn dawns elusen – wedi ei chanslo | 970 | 0.00 |
| Cyfrif Elusen Maer Treffynnon | 2 docyn dawns elusen – wedi ei chanslo | 971 | 0.00 |
| Y Cyngh. E. M. Chard | Treuliau'r Maer - Chwefror 2020 | 972 | 75.65 |
| Delwedd Ltd | Cynyddu maint blwch post ar gyfer pedwar cyfrif ebost | 973 | 51.84 |
| Conrad Office & Art | Papurach | 974 | 205.66 |
| Conrad Office & Art | Papurach | 975 | 7.19 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£478.79** |

*Taliadau Ebrill 2020*

| Cyflenwr | Manylion | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Sunshine Events | Stondinau digwyddiad 5ed a 6ed Medi 2020 | 980 | 1,248.00 |
| Sunshine Events | Stondinau digwyddiad 5ed a 6ed Medi 2020 | 981 | 1,504.80 |
| Dozy Dave | Adloniant parti Nadolig y plant 2020 | 982 | 270.00 |
| JDH Business Servies Ltd | Ffi Archwilio Mewnol Interim 2019/20 | 991 | 360.00 |
| BJS Solutions | Gweinydd newydd | 992 | 2,374.80 |
| Sage & Co | Gwasanaethau cyflogres Ion – Mawrth 2020 | 993 | 93.00 |
| Delwedd Ltd | Cofrestru parth | 994 | 21.59 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£5,872.19** |

*Taliadau Mai 2020*

| Cyflenwr | Manylion | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Canda Copying | Rhentu peiriant a chopïau du a gwyn | 996 | 290.98 |
| Canda Copying | Copïau lliw | 997 | 45.91 |
| WPS | Adnewyddu yswiriant 2020 | 1004 | 4,468.00 |
| WPS | Adnewyddu yswiriant peirianneg 2020 | 1005 | 415.22 |
| Scottish Power | Trydan ar gyfer goleuadau – Rhagfyr 2019 – Ionawr 2020 | 1003 | 371.83 |
| JDH Business Services | Taliad terfynol archwilio mewnol 2019/20 | 1006 | 360.00 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£5,951.94** |

*Taliadau Mehefin 2020*

| Cyflenwr | Manylion | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Y Cyngh. J. Ball | Lwfans treuliau 2020/21 | 1014 | 150.00 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£150.00** |

**148. <u>ARCHWILIO MEWNOL - TERFYNOL</u>**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn amlinellu naw mater a adnabuwyd gan yr archwiliwr, pob un bellach wedi ei drin, er cymeradwyaeth gan yr aelodau.

Holodd aelod beth oedd ffigwr cronfa wrth gefn y cyngor ar hyn o bryd?

Dywedodd Clerc y Dref na allai ateb ar unwaith, ond y byddai'n ebostio'r holl aelodau gyda'r ffigwr.

Ychwanegodd Clerc y Dref bod y cyngor ar y blaen o ran y 'cynllun ariannol pum mlynedd'. Gymaint felly, efallaiu y gallai ddod yn gynllun pedair blynedd.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**149. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Cyflwynodd Clerc y Dref y ddogfen uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei chadarnhau ac awdurdodi ei llofnodi gan y Maer fel Cadeirydd y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r datganiad a rhoi awdurdod i'r Maer ei lofnodi ar ran y Cyngor.*

**150. DATGANIAD BLYNYDDOL CYNGHORAU LLEOL YNG NGHYMRU**

Cyflwynodd Clerc y Dref y ddogfen uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei chadarnhau ac awdurdodi ei llofnodi gan y Maer fel Cadeirydd y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, eboniodd Clerc y Dref sut cafwyd y ffigurau yn y datganiadau cyfrifeg.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol a rhoi awdurdod i'r Maer ei lofnodi ar ran y Cyngor.*

**151. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: ………………….……..

Dyddiad: ……………………..